



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1601 (Cy. 200)

2015 No. 1601 (W. 200)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm
Cenedlaethol) (Targedau
Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio)
(Cymru) (Diwygio) 2015

The Education (National
Curriculum) (Attainment targets
and Programmes of Study) (Wales)
(Amendment) Order 2015

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

O dan adran 108(3)(a) a (b) o Ddeddf Addysg 2002, caiff Gweinidogion Cymru bennu, mewn cysylltiad â'r ail gyfnod allweddol, y trydydd cyfnod allweddol a'r pedwerydd cyfnod allweddol, drwy orchymyn, y targedau cyrhaeddiad a'r rhaglenni astudio hynny mewn perthynas â phob un o'r pynciau sylfaen y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

Under section 108(3)(a) and (b) of the Education Act 2002 the Welsh Ministers may in respect of the second, third and fourth key stages specify, by order, such attainment targets and programmes of study in relation to each of the foundation subjects as they consider appropriate.

Mae Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008") yn rhoi effaith gyfreithiol i 12 dogfen ("dogfennau pwnc") sy'n nodi'r rhaglenni astudio a'r targedau cyrhaeddiad ar gyfer y pynciau sylfaen hynny.

The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) Order 2008 ("the 2008 Order") gives legal effect to 12 documents ("subject documents") which set out the programmes of study and the attainment targets for those foundation subjects.

Mae erthygl 3(1) a (2) o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2008 er mwyn amnewid y diffiniad ar gyfer y ddogfen bwnc ar gyfer pob un o'r pynciau sylfaen a ganlyn—

Article 3(1) and (2) of this Order amends the 2008 Order so as to substitute the definition for the subject document for each of the following foundation subjects—

- (a) Saesneg;
- (b) mathemateg; ac
- (c) Cymraeg.

- (a) English;
- (b) mathematics; and
- (c) Welsh.

Mae erthygl 3(2) hefyd yn mewnosod diffiniad newydd, sef "y ddogfen Cymraeg ail iaith". Mae'r ddogfen bwnc ar gyfer pob un o'r pynciau sylfaen uchod wedi ei diwygio i adlewyrchu'r newidiadau i raglenni astudio'r pynciau hynny. Effaith y diwygio hwn yw y bydd Gorchymyn 2008 yn rhoi effaith gyfreithiol i'r dogfennau pwnc diwygiedig. Nid yw'r dogfennau pwnc wedi eu diwygio mewn cysylltiad â'r targedau cyrhaeddiad.

Article 3(2) also inserts a new definition of "the Welsh second language document". The subject document for each of the above foundation subjects has been revised to reflect changes to the programmes of study for those subjects and the effect of this amendment is that the 2008 Order will give legal effect to the revised subject documents. The subject documents have not been revised in respect of the attainment targets.

Roedd yr un ddogfen bwnc ar gyfer Cymraeg y mae Gorchymyn 2008 yn rhoi effaith gyfreithiol iddi yn darparu rhaglenni astudio a thargedau cyrhaeddiad ar

The single subject document for Welsh given legal effect by the 2008 Order provided separate programmes of study and attainment targets for Welsh

wahân ar gyfer Cymraeg a Chymraeg ail iaith. Mae erthygl 3(3) yn diwygio Gorchymyn 2008 er mwyn darparu bod y rhaglenni astudio a'r targedau cyrhaeddiad ar wahân ar gyfer Cymraeg a Chymraeg ail iaith wedi eu cynnwys mewn dogfennau pwnc ar wahân. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dilyn y rhaglen astudio ar gyfer Cymraeg ac mae ysgolion nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg yn dilyn y rhaglen astudio ar gyfer Cymraeg ail iaith.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

and Welsh second language. Article 3(3) amends the 2008 Order so as to provide that the separate programmes of study and attainment targets for Welsh and Welsh second language are contained in separate subject documents. The programme of study for Welsh is followed by Welsh-speaking schools and the programme of study for Welsh second language is followed by non Welsh-speaking schools.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of regulatory impact assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2015 Rhif 1601 (Cy. 200)

2015 No. 1601 (W. 200)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm
Cenedlaethol) (Targedau
Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio)
(Cymru) (Diwygio) 2015**

**The Education (National
Curriculum) (Attainment Targets
and Programmes of Study) (Wales)
(Amendment) Order 2015**

Gwnaed 5 Awst 2015

Made 5 August 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 11 Awst 2015

Laid before the National Assembly for Wales
11 August 2015

Yn dod i rym 1 Medi 2015

Coming into force 1 September 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 108(3)(a) a (b) a (5) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by sections 108(3)(a) and (b) and (5) and 210 of the Education Act 2002(1), make the following Order:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

Title, commencement and application

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) (Diwygio) 2015 a daw i rym ar 1 Medi 2015.

1.—(1) The title of this Order is the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) (Amendment) Order 2015 and it comes into force on 1 September 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Diwygio

Amendment

2.—(1) Mae Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

2.—(1) The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) Order 2008(2) is amended as follows.

(2) Yn erthygl 2(1)—

(2) In article 2(1)—

(a) yn y diffiniad o “y ddogfen Saesneg”, yn lle “yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl “Saesneg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru”” rhodder “ym mis Awst 2015 sy'n dwyn y teitl

(a) in the definition of “the English document” for “January 2008 entitled “English in the National Curriculum for Wales”” substitute “August 2015 entitled “Curriculum for Wales:

(1) 2002 p. 32. Diwygiwyd is-adran (3) o adran 108 gan adran 21(1) a (7)(b) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Mewnosodwyd cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn adran 108 a 210 gan adran 47 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1) a pharagraff 11 a 15 o'r Atodlen iddo.

(2) O.S. 2008/1409 (Cy. 146) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1787 (Cy. 173).

(1) 2002 c. 32. Subsection (3) of section 108 was amended by section 21(1) and 7(b) of the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5). References to the Welsh Ministers in section 108 and 210 were inserted by section 47 of, and paragraphs 11 and 15 of the Schedule to the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1).

(2) S.I. 2008/1409 (W. 146) as amended by S.I. 2008/1787 (W. 173).

“Curriculum for Wales: Programme of Study for English – Key Stages 2-4”(1);

- (b) yn y diffiniad o “y ddogfen fathemateg”, yn lle “yn Ionawr 2008 sy’n dwyn y teitl “Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru”” rhodder “ym mis Awst 2015 sy’n dwyn y teitl “Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg – Cyfnodau Allweddol 2-4”(2);
- (c) yn y diffiniad o “y ddogfen Gymraeg”, yn lle “yn Ionawr 2008 sy’n dwyn y teitl “Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru”” rhodder “ym mis Awst 2015 sy’n dwyn y teitl “Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg – Cyfnodau Allweddol 2-4”(3); a
- (d) ar ôl y diffiniad o “y ddogfen celf a dylunio” mewnosoder—
“ystyr “y ddogfen Cymraeg ail iaith” (*the Welsh second language document*) yw’r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ym mis Awst 2015 sy’n dwyn y teitl “Cymraeg ail iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnodau Allweddol 2-4”(4);”.

(3) Yn lle erthygl 15 rhodder—

“Cymraeg

15.—(1) Mae’r darpariaethau ynghylch targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen Gymraeg a’r ddogfen Cymraeg ail iaith yn cael effaith at ddibenion pennu’r targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran Cymraeg.

(2) Nid yw’r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen Gymraeg a’r ddogfen Cymraeg ail iaith (sy’n dangos y rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o’r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.”

Programme of Study for English - Key Stages 2-4”(1);

- (b) in the definition of “the mathematics document” for “January 2008 entitled “Mathematics in the National Curriculum for Wales”” substitute “August 2015 entitled “Curriculum for Wales: Programme of Study for Mathematics – Key Stages 2-4”(2);
- (c) in the definition of “the Welsh document” for “January 2008 entitled “Welsh in the National Curriculum for Wales”” substitute “August 2015 entitled “Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg – Cyfnodau Allweddol 2-4”(3); and
- (d) after the definition of “the Welsh document” insert—
““the Welsh second language document” (*“y ddogfen Cymraeg ail iaith”*) means the document published by the Welsh Ministers in August 2015 entitled “Welsh second language in the National Curriculum for Wales – Key Stages 2-4”(4);”.

(3) For article 15 substitute—

“Welsh

15.—(1) The provisions relating to attainment targets and programmes of study set out in the Welsh document and the Welsh second language document have effect for the purpose of specifying the attainment targets and programmes of study in relation to Welsh.

(2) The examples printed in italics in the Welsh document and the Welsh second language document (which serve to illustrate the programmes of study described therein) do not form part of the provision made by this Order.”

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
5 Awst 2015

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers
5 August 2015

©Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

- (1) Rhif ISBN 978-1-4734-3683-1.
(2) Rhif ISBN 978-1-4734-3685-5.
(3) Rhif ISBN 978-1-4734-3684-8.
(4) Rhif ISBN 978-1-4734-3635-0.

- (1) ISBN No.978-1-4734-3683-1.
(2) ISBN No.978-1-4734-3685-5.
(3) ISBN No.978-1-4734-3684-8.
(4) ISBN No.978-1-4734-3635-0.